Ebrill 2023




Fferm Wynt Pen y Cymoedd

# Diweddariad Mynydd Lluest y Graig

VATTENFALL

# Adborth o'r ymgynghoriad cymunedol anffurfiol




Ddiwedd y llynedd, cynhaliodd Vattenfall ymgynghoriad anffurfiol cynnar ar barc ynni arfaethedig Mynydd Lluest y Graig ger Llanerfyl, Powys.

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad anffurfiol rhwng 9-30 Tachwedd 2022. Rhoddwyd gwybodaeth ar wefan y prosiect, a chynhaliodd Vattenfall bum digwyddiad cymunedol lleolir yn Llanerfyl, Adfa, Carno, Llanfair Caereinion, a Llanbrynmair.

Pwrpas cam cychwynnol yr ymgysylltu oedd rhannu gwybodaeth gynnar a chasglu barn a syniadau cychwynnol gan gymunedau lleol am y prosiect arfaethedig.

Gwahoddwyd y rhai a fynychodd y digwyddiadau yn bersonol i ddarllen am y cynnig ar fyrddau gwybodaeth, edrych ar fodel 3D o'r safle o wahanol fannau ffafriol, yn ogystal â siarad ag aelodau tîm prosiect Vattenfall. Cynigiwyd llyfryn gwybodaeth hefyd ynghyd â ffurflen adborth am y prosiect. Roedd ffurflen adborth ar-lein hefyd ar gael.

Mae'r wybodaeth am yr ymgynghoriad anffurfiol yn dal i fod ar gael i'w gweld ar-lein yn vattenfall.co.uk/mllyg

**Technoleg**

Mae technolegau gwynt, solar a hydrogen a storio batris yn cael eu trafod ar gyfer y prosiect hwn ar hyn o bryd.

**Gwynt**

Hyd at 18 tyrbin, hyd at 200m o uchder i flaen y llafn, gyda'r potensial i gynhyrchu hyd at 135 MW, digon o drydan ar gyfer tua 90,000 cartref* y flwyddyn.

Gallai 1 cylchdro gan dyrbin sengl bweru tŷ cyfartalog yn y DU am 32 awr.*

Gallai 1 cylchdro o'r fferm wynt bweru tŷ cyfartalog yn y DU am 24 diwrnod.*

*Yn seiliedig ar ddata gwynt ar y safle.



Digwyddiad Llanfair Caereinion yn ystod ymgynghoriad anffurfiol ym mis Tachwedd 2022.

# Adborth - cipolwg ar gymryd rhan

Yn ystod y cyfnod ymgynghori anffurfiol:

- Cafwyd 368 ymwelydd i dudalen we'r prosiect
- Daeth 203 person i'r digwyddiadau cymunedol
- Derbyniwyd 93 ffurflen adborth

Roedd yr adborth a dderbyniwyd yn hynod werthfawr, ac mae Vattenfall yn diolch yn ddiffuant i bawb a roddodd o'u hamser i ddarllen y wybodaeth ac ymateb gyda'u barn. Dros yr wythnosau diwethaf, mae tîm y prosiect wedi bod yn brysur yn ystyried yr adborth, sydd wedi bwydo i mewn i waith ymchwil a thrafodaethau gydag arbenigwyr wrth i'r prosiect gael ei gynllunio, yn ogystal â chysylltu'n uniongyrchol â'r rhai a ymatebodd mewn nifer o achosion.

Trosolwg o'r bobl a ymatebodd i'r arolwg:

- Roedd y mwyafrif helaeth yn byw'n **'lleol' i'r ardal**
- O'r rhai a nododd eu grŵp oedran roedd y mwyafrif helaeth (63%) **dros 55 oed**, gyda dim ond 5% o dan 35 oed.
- **Gofynnodd nifer o fusnesau lleol am gael eu hysbysu am unrhyw gyfleoedd cadwyn gyflenwi yn y dyfodol**

# Y safle arfaethedig

Pa wybodaeth fyddai'n ddefnyddiol i chi am y technolegau rydym yn eu hystyried?

| | | |
|---|---|---|
| Technolegau adnewyddadwy | Cysylltiad grid | Llwybrau cludo |
| Effaith sŵn | Effaith amgylcheddol | Mawn |

Roedd y wybodaeth y dywedodd pobl y byddent yn ei chael yn ddefnyddiol am y technolegau arfaethedig ar gyfer y parc ynni yn cynnwys:

- **Technolegau adnewyddadwy arfaethedig ar gyfer y safle** – roedd pobl eisiau gwybod sut byddai'r technolegau hyn yn gweithio gyda'i gilydd ar barc ynni, o'r cynllun i'r effaith weledol. Er bod pobl yn dweud eu bod yn gwybod llawer am ynni 'gwynt' a 'solar', roedden nhw'n gwybod llawer llai am 'hydrogen' a 'batri'.
- **Y cysylltiad grid** – gofynnodd pobl am ragor o wybodaeth ar sut y byddai'r parc ynni yn cysylltu â'r grid cenedlaethol, gan gynnwys lleoliad yr is-orsaf a beth allai'r seilwaith grid ehangach fod (e.e. 'peilonau').
- **Llwybrau cludo** –roedd diddordeb yn y llwybrau arfaethedig ar gyfer cludo llwythi trwm i mewn ac allan o'r parc ynni yn ystod y gwaith adeiladu.
- **Effaith sŵn** – roedd cwestiynau ar effeithiau sŵn o'r tyrbinau a sut y byddai hyn yn cael ei reoli.
- **Effaith amgylcheddol** – roedd pobl eisiau dealltwriaeth o unrhyw effeithiau amgylcheddol y gallai'r cynnig eu cael, gan gynnwys ar unrhyw fawn ar y safle, ac ar fioamrywiaeth. Roedd pobl eisiau gwybod mwy am ddwysedd carbon y seilwaith.

# Newid hinsawdd, polisi a chynllunio

Teimlai mwyafrif yr ymatebwyr mai'r 'blaenoriaethau' pwysicaf i'w hystyried wrth feddwl am 'sicrwydd ynni a mynd i'r afael â newid hinsawdd' ym Mhowys oedd:

Roedd **47%** o'r rhai a ymatebodd, pan ofynnwyd iddynt **'Pa mor bryderus ydych chi am newid hinsawdd, os o gwbl?'** yn 'bryderus iawn' am newid hinsawdd.

| | | |
|---|---|---|
| **70%** effeithlonrwydd ynni | **65%** natur/bioamrywiaeth | **48%** amaethyddiaeth |



# Effaith Amgylcheddol (AEA)

Mae'r Asesiad ar yr Effaith Amgylcheddol yn asesu pob agwedd o'r cynnig.

Mae canlyniadau'r arolygon a'r asesiadau a gynhelir fel rhan o'r gwaith AEA, yn pennu'r lle gorau i leoli'r seilwaith ynni, ac yn nodi meysydd lle mae angen cymryd mesurau ychwanegol.

Roedd y ffurflen adborth yn gofyn i bobl pa faterion oedd bwysicaf iddyn nhw. Nododd mwyafrif yr ymatebwyr 'Ecoleg a chadwraeth natur' (80%); 'Tirwedd a gweledol' (76%); 'Sŵn' (66%); fel 'blaenoriaethau uchel i mi' pan ofynnwyd 'pa rai o'r pynciau hyn sy'n flaenoriaethau i chi wrth ystyried y prosiect hwn'.

**Mae sylwadau penodol wedi'u grwpio dan nifer o themâu i'r tîm prosiect eu hystyried wrth iddynt ddatblygu'r cynnig ymhellach:**

- **Y dirwedd a'r effaith weledol** – effaith weledol y parc ynni.
- **Cysylltiad grid** – sut byddai'r prosiect yn cael ei gysylltu â'r grid ac unrhyw seilwaith tebygol megis is-orsaf.
- **Cludo** – traffig yn ystod y cyfnod adeiladu.
- **Sŵn** – sŵn tyrbinau gwynt a'i effaith ar dawelwch yr ardal yn ogystal ag ar fusnesau penodol.
- **Ecoleg a Chadwraeth Natur** – ystyried bioamrywiaeth yr ardal leol ac awydd i weld cynnydd net mewn bioamrywiaeth a choetir brodorol.
- **Hydroleg, Hydroddaeareg a Daeareg** – gwarchod cyrsiau dŵr er mwyn osgoi llifogydd ymhellach i lawr yr afon.
- **Mawn** – osgoi colli mawndir yn ogystal ag archwilio posibiliadau i adfer mawndir.
- **Adareg** – sicrhau bod y data adar diweddaraf yn cael ei ddefnyddio (e.e. niferoedd y barcud coch).
- **Cysgodion Symudol** – ystyried 'cysgodion' ac unrhyw effaith ehangach ar hedfan.

**Ystyried eich sylwadau**

Dros yr wythnosau diwethaf mae tîm y prosiect wedi bod yn rhoi sylw i nifer o sylwadau uniongyrchol a godwyd yn yr ymgynghoriad anffurfiol. Mae'r tîm hefyd wedi bod yn cynnal ymchwil pellach, yn siarad ag arbenigwyr ac yn cysylltu'n uniongyrchol ag unigolion sy'n byw'n lleol ac wedi codi cwestiynau penodol yn ystod cyfnod cynnar yr ymgynghoriad anffurfiol.

Bydd y pethau y mae pobl wedi'u dweud wrthym yn helpu i lywio'r ffordd rydym yn datblygu'r cynnig. Rydym yn edrych ar y materion sydd wedi'u codi a byddwn yn ceisio mynd i'r afael ag unrhyw bryderon, yn ogystal â nodi cyfleoedd pellach i wneud y gorau o fudd y prosiect i'r ardal leol.

# Buddsoddi yn yr Ardal

Pan ofynnwyd i chi rannu syniadau am yr hyn sy'n bwysig i'r ardal:

**73%**

**Diogelu a gwella'r amgylchedd** oedd ar frig yr ymatebion (73%)

**59%**

Crybwyllwyd **mesurau effeithlonrwydd ynni ar gyfer adeiladau cyhoeddus a domestig** gan 59%

**49%**

**Crybwyllwyd sgiliau a swyddi** gan 49%

Wrth feddwl am yr heriau a'r cyfleoedd ar gyfer yr ardal leol yn y dyfodol, daeth grŵp eang o themâu i'r amlwg:

- **Gwaith lleol a gweithlu medrus** – un o'r 'heriau' allweddol i bobl yr ardal oedd dod o hyd i waith yn ogystal â sicrhau bod gan y gweithlu sgiliau digonol ar gyfer anghenion y dyfodol.
- **Cysylltiadau trafnidiaeth, seilwaith, cysylltedd a band eang** – nodwyd diffyg trafnidiaeth gyhoeddus a chysylltedd digonol fel problem. Roedd hyn yn cynnwys diffyg darpariaeth trafnidiaeth gyhoeddus ddigonol.
- **Cymhellion ar gyfer y gymuned** – diffyg buddsoddiad canfyddedig yn y cymunedau lleol.
- **Heddwch a'r effaith weledol leiaf bosibl** – Doedd nifer o bobl ddim yn gweld o gyfle ac nid oeddent eisiau unrhyw newid i 'heddwch' yr ardal.
- **Manteision cymunedol** – cafodd gwell llwybrau beicio a llwybrau troed yn y parc ynni hefyd eu cofnodi i'w hystyried yn y dyfodol.
- **Sylwadau ehangach** – yn cynnwys yr angen am fwy o adfer cynefinoedd, darpariaeth gofal iechyd, ynni adnewyddadwy lleol, yn ogystal â phryderon am draffig.

# Y camau nesaf...

Roedd nifer fawr o'r rhai wnaeth ymwneud gyda'r broses ymgynghori anffurfiol am gael eu diweddaru am ddatblygiad y parc ynni yn y dyfodol. Roedd awgrymiadau ynghylch sut y gellid gwneud hyn yn cynnwys cylchlythyr yn cael ei anfon i gartrefi, digwyddiadau pellach, a chyfleoedd ar-lein ehangach i ddysgu mwy ac ymgysylltu.

Mae'r holl adborth wedi'i rannu gyda'r arbenigwyr perthnasol i wneud yn siŵr bod sylwadau, syniadau a phryderon yn cael eu hystyried yn llawn wrth ddylunio'r prosiect. Byddwn hefyd yn parhau â'r ddeialog dros y misoedd nesaf i drafod y syniadau a'r blaenoriaethau a godwyd i weld beth y gellir ei gynnwys yn y prosiect i wneud y gorau o'r manteision a'r cyfleoedd posibl.

Un maes penodol lle cafwyd adborth gwerthfawr oedd ynghylch opsiynau posibl o ran llwybrau cludo i'r safle. O'r herwydd, rydym bellach yn asesu nifer mwy o lwybrau nag a ragwelwyd yn wreiddiol ac er bod hyn wedi golygu bod angen mwy o amser i gynnal ein hastudiaethau, ynghyd ag oedi o ran amserlen y prosiect, credwn y bydd hyn yn y pen draw yn arwain at sefydlu'r llwybr cludo gorau posibl.

### Cysylltwch â ni

Mae croeso i chi gysylltu â ni unrhyw bryd gydag unrhyw ymholiadau:

E-bost: Mynydd.windfarm@vattenfall.com

Ffoniwch ni: 01938 530193

www.vattenfall.co.uk/mllyg

Vattenfall Wind Power Ltd
Mynydd.windfarm@vattenfall.com
01938 530193
www.vattenfall.co.uk/mllyg

VATTENFALL